# Cyngor Cymuned Tudweiliog
## Tudweiliog Community Council

Heulwen Williams
Clerc/clerk
01758 770415

Pen Cefn,
Dinas,
Pwllheli.
LL53 8UB.

Cofnodion Cyngor Cymuned Tudweiliog a gynhaliwyd ar Zoom nos Lun Mai 10ed 2021

Presennol: Henry Hughes, Siân Parri, Gareth Jones, Alan Hughes, John Davies, Chris Brady, Alyn Williams, Seimon Glyn, Humphrey Williams.

Ymddiheuriadau:

1. Cadeiriwyd gan Siân Parri ac estynnodd groeso i bawb.
2. Materion yn codi o'r cofnodion:
   a. **Baw Ci cynyddol ar Barc Main Garnfadryn –** Dywedodd Alan Hughes iddo siarad hefo'r swyddogion eraill, ai bod yn bosib cael bin baw ci ond byddai angen talu i'w gwagio. Cytunwyd I osod y bin am dymor yr haf wrth y man parcio, ac asesu wedyn os oedd ei hangen. Bydd Alan yn trefnu.
   b. **Llainfatw –** Cafwyd crynodeb o'r sefyllfa ddiweddaraf gan y Cadeirydd, a dywedodd fod yr achos wedi cael sylw mawr gan y cyfryngau. Ychwanegodd Seimon Glyn iddo siarad ar Parch Richard Woods, ai fod wedi deall ganddo fod parhau i gynnal yr eiddo a thalu treth y Cyngor yn flynyddol wedi mynd yn fyrdwn, ac nad oedd opsiwn ond ei werthu. Bellach mae trigolion Llangwnnadl wedi rhoi cynnig i'r ymddiriedolwyr iddynt drosglwyddo eu cyfrifoldeb o'r elusen ai gyflwyno i bobl Llangwnnadl, ac y byddai Cyngor Cymuned Tudweiliog yn gyfrifol am godi ymddiriedolwyr o'r ardal sydd yn fodlon ac yn awyddus i'w ddiogelu. Darllenodd y Cadeirydd lythyr gan y Parch Richard Woods, bydd yn ceisio cyngor cyfreithiol ynglŷn â'r cynnig. Dywedodd Seimon Glyn y bydd yn holi'r Parch Richard Woods eto i gael diweddariad, a hefyd i gael gywbodaeth am asedau a gwerth yr elusen cyn ei throsglwyddo. Cytunodd pawb i'r rhan y byddai'r Cyngor Cymuned yn ei gymeryd os byddai hyn yn digwydd.
   c. **Porthysgaden –** Dywedodd Seimon Glyn fod Cyngor Gwynedd wedi paratoi nifer o bosteri 'dim gwersylla' fydd yn cael eu gosod mewn mannau amlwg ym Mhorthsgaden.

ch. **Lympiau cyflymder –** Dywedodd Seimon Glyn fod y gofyn am rhain ym mhentref Tudweiliog yn mynd nol flynyddoedd, gan ychwanegu fod rhai o'r pentrefwyr yn erbyn eu gosod. Gan fod y mater yn amlwg yn pryderu'r mwyafrif, mae cais wedi ei osod I Gyngor Gwynedd am lympiau cyflymder.

d. **Diweddariad o hen geisiadau cynllunio –** Er i'r Clerc ofyn i Swyddogion Cyngor Gwynedd, doedd dim ymateb wedi ei dderbyn ganddi, bydd yn ceisio ateb eto ganddynt.

3. Gohebiaeth:

a/ **Cais Cynllunio C21/0395/46/LL Pen y Bont Fach Llangwnnadg-** Cefnogi

b/ **Anfoneb John Tudor –** Derbyniodd y Clerc ganiatad i dalu'r anfoneb o £120.00

4. **Unrhyw fater arall:**

a/ **Gwersylla dros nos ym maes parcio glan mor Benllech –** Dywedodd y Cadeirydd iddi dderbyn cwynion fod ymwelwyr yn gwersylla dros nos yn y maes parcio. Gofynnodd Seimon Glyn am dystiolaeth fwy cadarn o hyn fel y gellid cyflwyno'r mater i Gyngor Gwynedd.

Cynhelir y cyfarfod nesar ar Zoom Nos Lun 14ed Mehefin 2021
am 7.30yh